SIR GAERFYRDDIN


# Nodiadau Natur

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership

## IONAWR-MAWRTH 2024

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfoeth o fywyd gwyllt. Mae'r 'Nodiadau Natur' hyn yn nodi rhai o'r uchafbwyntiau er mwyn ein hannog ni i gyd i fwrw golwg fanylach o'n hamgylch ni – mae hyd yn oed y pethau mwyaf cyffredin yn arbennig. Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol? Beth am anfon llun atom?





I gael rhagor o wybodaeth am natur yn y sir, darllenwch ein Cynllun Adfer Natur:
sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth

Anfonwch eich lluniau at: Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk



## Duegredynen

Rhedynen fach yw'r Dduegredynen (*Asplenium trichomanes*) y gellir ei gweld yn tyfu, fel y mae yma, mewn waliau ar draws y sir. Mae'r waliau hyn yn debyg i'r lleoedd creigiog maent yn tyfu ynddynt yn y gwyllt.

Yn rhedynen unigryw, mae gan y Dduegredynen ffrondau hir wedi'u gwneud o ddail bach, crwn sy'n dod o goesyn du yn y canol. Credir bod yr enw ar y rhywogaeth yn deillio o sborau siâp dueg ar ochr isaf ei dail.

Mae'n rhaid i blanhigion sy'n tyfu yn y mathau hyn o leoedd fod yn wydn ac wedi'u haddasu i dyfu heb fawr o faetholion a heb fawr o bridd i angori eu hunain.





## Penigan y Porfeydd

Dim ond mewn llond dwrn o safleoedd yn Sir Gâr mae yna gofnod o Benigan y Porfeydd (*Dianthus armeria*). Gyda chlystyrau o flodau pinc llachar, mae'n well gan y planhigyn prin hwn dir y tarfwyd arno ac amodau agored, wedi'u goleuo'n dda.

Mae'n rhywogaeth warchodedig sy'n cael blaenoriaeth yng Nghymru. Dan Drwydded arbennig gan Gyfoeth Naturiol Cymru, cymerwyd hadau o un boblogaeth a'u hau yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Fe wnaeth yr Ardd gadw'r planhigion yno nes daethpwyd o hyd i safle addas lle gallai plygiau gael eu plannu gan wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i helpu i reoli gwarchodfeydd natur lleol y sir. Bydd y safle'n cael ei fonitro, a bydd y tir yn cael ei gadw'n agored i roi'r cyfle gorau i'r planhigion ffynnu.



## Cennau crystiog

Mae grŵp cennau *Pertusaria* yn gyffredin iawn, ac mae dros 500 o rywogaethau wedi'u cofnodi. Fe'u gelwir fel arfer yn gen dafadennog – o edrych arnynt yn agos gallwch weld y 'cyrff ffrwytho' sy'n dal y sborau atgenhedlu. Daethpwyd o hyd i'r un hwn ar hen Onnen. Yn aml mae angen microsgop i adnabod rhywogaethau fel hyn ond gellir adnabod un rhywogaeth - *Pertusaria amara* - trwy ei blas – mae tamaid bach ar flaen y bys yn chwerw tu hwnt!

Mae cennau'n anhygoel - maent wedi'u gweld ar ochr allanol yr Orsaf Ofod Ryngwladol ac wedi goroesi yng ngwactod y gofod, heb unrhyw ddŵr, mewn tymereddau eithafol a chydag ymbelydredd a phelydrau uwchfioled o'r haul!



## Ffwng Cwpanau Robin Coch

Mae Cwpanau Robin Coch (rhywogaeth *Sarcoscypha*) i'w gweld yn y gaeaf mewn mannau llaith, cysgodol mewn coetiroedd gyda digon o bren cwympedig â mwsogl.

Mae ffyngau'n perthyn i'w teyrnas eu hunain ac yn cael eu maetholion a'u hegni o ddeunydd organig, yn hytrach na ffotosynthesis fel y rhan fwyaf o blanhigion.

Mae cwpanau Robin yn saethu eu sborau i'r awyr, yn hytrach na'u gollwng drwy fandyllau neu dagellau fel llawer o ffyngau eraill. Gall newid cynnil yn y tymheredd sbarduno miloedd lawer o sborau i gael eu saethu o wyneb mewnol y cwpan drwy weithredu niwmatig.



## Gwenci

Cafodd y Wenci (*Mustela nivalis*) hon ei dal ar gamera yn achub mantais ar fan gwylio da. Mae gwencïod yn perthyn i ddyfrgwn a charlymod, ac mae ganddynt gyrff hir, tu blaen hufennog, a choesau a chynffon byr.

Y Wenci yw anifail cigysol lleiaf Prydain ac mae'n bwyta llygod y gwair, llygod ac adar bach ac yn byw mewn amryw gynefinoedd. Gelwir eu rhai bach yn genawon, a gallant gael hyd at ddau dorraid y flwyddyn gyda thri i chwech o genawon ym mhob torraid. Dim ond am tua 2 flynedd maent yn byw, felly nid oes amser ganddynt i'w wastraffu!



## Chwilen Blymio Fwyaf

Mae'r Chwilen Blymio Fwyaf (*Dytiscus marginalis*) *yn* fawr - mae'r larfaod yn tyfu hyd at 60mm o hyd, ac mae'r oedolion yn llai, sef rhyw 27–35mm fel arfer.

Mae'r chwilod cyffredin hyn yn byw mewn dŵr croyw sy'n llonydd neu'n llifo'n araf. Adenydd sgleiniog sydd gan y gwrywod, tra bo rhai'r benywod yn rhychog. Maent yn hela amrywiaeth eang o ysglyfaeth ac mae cwpanau amsugno ar goesau'r gwrywod (y ddau bâr cyntaf), sy'n golygu gallant afael yn dynn yn eu hysglyfaeth. Maent yn hedfan, fel arfer yn y nos, gan ddefnyddio adlewyrchiad golau'r lleuad i ganfod ffynonellau dŵr newydd. Weithiau gall hyn beri iddynt lanio ar ffyrdd gwlyb - fel yr un hyn fan yma.



© J. Bond

## Olion traed

Olion traed dwrgi'n symud trwy ei diriogaeth yw'r rhai hyn sy'n croesi'r fflatiau llaid ar arfordir Llanelli.

Defnyddir ein harfordir llawer yn fwy gan ddyfrgwn bellach, ac mae olion traed yn un ffordd o'u hadnabod.

Mae dyfrgwn yn defnyddio mwyfwy o amgylcheddau dŵr croyw, dŵr lled hallt *a* morol. Fodd bynnag, rhaid i ddyfrgwn sy'n defnyddio'r môr gael mynediad at ddŵr croyw er mwyn yfed a golchi.



## Carn yr Ebol

Mae Carn yr Ebol (*Tussilago farfara*) yn blanhigyn llachar sydd ymysg y cynharaf i flodeuo - amseru perffaith i gynnig neithdar a phaill i famgacynod a phryfed eraill ar ôl iddynt orffen gaeafgysgu. Yma mae'n tyfu mewn pentwr o gerrig ar drac yn y goedwig, ac fe'i gwelir yn aml mewn mannau lle nad oes fawr arall yn tyfu.

Daw'r blodau allan cyn y dail ond maent yn cau gyda'r hwyr pan nad oes llawer o bryfed peillio yn hedfan ar hyd lle.

Yn y gorffennol defnyddid Carn yr Ebol i wella peswch ac annwyd.



©Adam Dare

## Cynffon Sidan

Mae'r Gynffon Sidan (*Bombycilla garrulus*) ychydig yn llai na'r Ddrudwen, a chan fod y llun hwn o'r tu ôl, gallwn weld y plu melyn, pinc a gwyn anhygoel sydd ar ei hadenydd, ynghyd â'i chynffon blaen melyn. Gyda'i chrib amlwg hefyd, dyma yw rociwr pync y byd adar! Y gaeaf hwn rydym wedi bod yn ddigon ffodus i weld y Gynffon Sidan yn y sir. Nid ydynt yn bridio ym Mhrydain ond maent yn ymwelwyr achlysurol yn y gaeaf o'u tiroedd magu yn Sgandinafia a Rwsia, gan fudo yma pan fydd aeron y gaeaf yn brin. Gelwir grŵp mawr o Gynffoniaid Sidan yn Rhuthr.





## Plygu clawdd

Yn ôl pob tebyg mae gan Sir Gaerfyrddin un o'r rhwydweithiau perthi mwyaf cymhleth yng Nghymru. Fel hen nodweddion yn y dirwedd, maent yn llwybrau rhwng cynefinoedd ac yn gallu bod yn bwysig iawn o ran cynnal bywyd gwyllt - fel lloches ac fel ffynhonnell fwyd.

Mae gor-reoli trwy docio i'r un uchder bob blwyddyn yn dirywio'r clawdd, felly ceir llawer o fylchau yn ei waelod a phrin yw'r cysgod mae'n ei ddarparu i fywyd gwyllt.

Mae plygu cloddiau wedi bod yn ffordd o reoli ein perthi ers cannoedd o flynyddoedd. Caniatâ i flodau ac aeron ffurfio ac i'r clawdd gynyddu'n raddol mewn maint, gan ei gadw mewn cyflwr iach. Mae clawdd wedi'i blygu yn rhwystr i stoc ac yn gynefin trwchus i fywyd gwyllt, ond yn bwysicaf oll mae'n annog tyfiant newydd sy'n dechrau cylch bywyd newydd ar gyfer y clawdd.

Ceir gwahanol arddulliau plygu clawdd mewn gwahanol rannau o Brydain - mae mwy na 30 o arddulliau wedi'u cofnodi. Datblygwyd pob arddull dros flynyddoedd lawer i ymdopi â hinsawdd yr ardal, gwahanol arferion ffermio, a'r math o goed a llwyni sy'n tyfu yn y clawdd.



## Capsiwlau mwsogl

Ceir mwsoglau gwrywaidd a benywaidd. Mae mwsoglau gwrywaidd yn cynhyrchu sberm sy'n gorfod dod i gysylltiad â dŵr neu leithder er mwyn nofio i'r wyau a'u ffrwythloni. Wedi i'r ffrwythloni ddigwydd, bydd yr ŵy yn cynhyrchu capsiwl. Yna caiff y broses atgenhedlu ei hailadrodd fel bod y mwsogl yn gallu lluosi a lledaenu a bod ei gylch bywyd yn parhau.

Mae'r sborau y dibynna mwsogl arnynt ar gyfer atgenhedlu yn gyfystyr â hedyn planhigyn blodeuol. Un gell sydd gan sborau ac wrth i'r capsiwl aeddfedu, cânt eu rhyddhau (weithiau yn eu miliynau) i'r aer a'u chwythu, gan gyrraedd mannau â digon o leithder gobeithio, sy'n galluogi iddynt dyfu.





## Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin

Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council
WWBIC – West Wales Biodiversity Information Centre / Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru
National Botanic Garden of Wales / Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Coed Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
Ymddiriedolaeth Natur / Wildlife Trust – South and West Wales / De a Gorllewin Cymru
Butterfly Conservation Wales / Gwarchod Glöynnod Byw Cymru
Llanelli Naturalists / Naturiaethwyr Llanelli
amphibian and reptile conservation
Bat Conservation Trust
Clwb Adar Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Bird Club
Plantlife
Carmarthenshire Meadows Group / Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol / The National Trust
Pont – Pori Natur a Threftadaeth
Bumblebee Conservation Trust
buglife
Mid Wales Red Squirrel Partnership / Canolbarth Cymru Partneriaeth Gwiwerod Coch
WWT
Botanical Society of the British Isles
West Wales Rivers Trust / Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru
Menter ar Gyfer Cadwraeth Natur Cymru / Initiative for Nature Conservation Cymru